Orchard.

**Swydd Ddisgrifiad**

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd | Dylunydd – Arddangosfeydd |
| Tîm | Gweithrediadau |
| Cyflog: | Dylunydd: £25k + yn ddibynnol ar brofiad |

Trosolwg o'r rôl

Mae Orchard yn asiantaeth integredig flaenllaw sydd wedi'i lleoli yng nghanol Caerdydd sy'n darparu meddwl Strategol, datrysiadau Creadigol ac effaith Fasnachol. Rydym yn helpu brandiau i gysylltu â'u cynulleidfaoedd drwy ddilyn strategaethau craff, syniadau beiddgar, a phrofiadau cyfranogol. Rydym ar gam cyffrous o'n cynlluniau i ehangu tîm Orchard Activations ac rydym yn chwilio am dalent arloesol i gyfrannu ymhellach at ein llwyddiant. Ar hyn o bryd mae gennym swydd gwag ar gyfer dylunydd 3D talentog.

### Pam ddylech chi weithio i ni?

Mae Orchard yn hwb strategol a chreadigol sy'n dod â syniadau'n fyw ac yn rhoi ein pobl yn gyntaf. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'n Tîm Gweithrediadau a bydd gweithio fel Dylunydd 3D i Orchard yn rhoi'r cyfle i chi gymryd rhan mewn prosiectau gwych.

Noder y bydd y rôl hon yn cynnwys gweithio o bell, gan ddilyn patrwm o weithio yn y swyddfa am 2 diwrnod yr wythnos a gweithio gartref am 3 diwrnod yr wythnos.

### Sut i wneud cais

Anfonwch lythyr eglurhaol atom yn egluro pam mai chi yw'r person gorau ar gyfer y swydd ac anfonwch PDF atom neu linc i'ch CV neu eich portffolio at ymunoartim@thinkorchard.com erbyn **Dydd Mercher yr ail ar hugain o Chwefror 2023.** Rydym yn dilyn yr egwyddor o 'ansawdd nid nifer', felly dewiswch y gwaith rydych chi fwyaf balch ohono ac sy'n dangos sut rydych chi'n bodloni ein meini prawf. Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal **Dydd Iau yr ail o Fawrth 2023.**

Am y **rôl**

Fel dylunydd 3D, byddwch yn gweithio'n annibynnol ac ar y cyd, gan gefnogi'r Tîm Arddangosfeydd a Gweithrediadau a sicrhau bod ein gwaith creadigol yn cyrraedd y safon uchaf.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol:

- Gallu meddwl a dylunio mewn 3D
- Gallu dehongli briff a gofynion cleientiaid o ran dyluniad 3D
- Creu delweddau, rendradau a phrofion 3D
- Creu darluniau a chynlluniau adeiladu sy'n addas ar gyfer maes adeiladu dosbarthedig
- Creu gwaith celf 2D parod ar gyfer gofynion actifadu
- Goruchwylio gwaith print ac adeiladu
- Gallu deall a dylunio o fewn paramedrau technegol
- Datblygu dull strategol o ymdrin â phrosiectau
- Goruchwylio ansawdd creadigol yr holl waith a gynhyrchir yn fewnol ac a gaiff ei anfon i gleient
- Creu cysyniadau sy'n diwallu anghenion briff y cleient a chyfathrebu'r cysyniadau hynny
- Cyfarwyddo a rheoli prosiectau maint canolig gan sicrhau eu bod yn driw i'r cysyniad a'r brand.
- Gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Cleientiaid neu'n uniongyrchol gyda chleientiaid, yn ôl y gofyn
- Cefnogi uwch rheolwyr, y rheolwr prosiect a'r rheolwr cyfrif
- Gallu cwblhau prosiectau ar bob rhan o'r broses, o'r camau dylunio, i'r briff hyd y diwedd

Profiad **gofynnol**:

- Profiad o 3-5 mlynedd gydag asiantaeth greadigol neu arddangosfa.
- Portffolio da sy'n dangos hanes profedig o wneud gwaith dylunio 3D
- Yn gwbl hyderus wrth ddefnyddio Sketchup, AutoCAD, Adobe Creative suite
- Sgiliau ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Yn drefnus ac yn fanwl
- Yn gyfarwydd â phob cam o'r broses ddylunio a'r gallu i weithio gyda thîm yn ystod y broses honno (strategaeth, llunio cysyniadau, datblygu, cyllidebu, cyflwyno cynigion, cymeradwyo cleientiaid, gweithredu; a dod â'r broses i ben)
- Yn rhagorol wrth gyfathrebu â chleientiaid a darparu gwasanaeth cwsmeriaid
- Portffolio crefftus sy'n dangos eich angerdd at ddylunio, a sut mae llunio strategaeth dda yn sicrhau bod y dyluniad yn diwallu'r briff

I ffitio yn ein tîm, byddwch:

- Yn berson creadigol hyderus, llawn ysbrydoliaeth, sy'n hynod brofiadol wrth wneud gwaith dylunio
- Yn brofiadol wrth weithio i derfynau amser tynn mewn amgylchedd prysur
- Yn angerddol am greadigrwydd mewn amgylchedd masnachol llawn terfynau amser
- Yn unigolyn bywiog sy'n gallu arwain tîm, a bod yn aelod gwych o'r tîm hwnnw hefyd
- Yn gweithio'n ystyrlon, gan allu gweithio ar gyflymder a bod yn hyblyg
- Yn llawn cysyniadau cryf, gan ddangos gwaith dylunio uchelgeisiol
- Yn gweld pwysigrwydd manylder, gan sicrhau bod pob syniad wedi'i saernïo'n grefftus i'r safon uchaf
- Yn wych gyda phobl - eich tîm a'ch cleientiaid - yn hyderus wrth gyflwyno'ch syniadau i'r ddwy garfan, ac yn esiampl dda i'r rhai sy'n iau na chi
- Chwaraewr tîm sy'n dilyn ein PRIF werthoedd

Pecyn buddion Orchard

Ein pobl sy'n ein gwneud ni mor arbennig. Dyna pam rydym yn cynnig pecyn buddion hael i bawb sy'n rhan o'n tîm. Dyma enghraifft o'r buddion sydd ar gael:

- Cyfleoedd gweithio hyblyg ac o bell
- Oriau craidd 10 – 4
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol
- Oriau lles misol
- Cyllideb hyfforddi hael
- Yswiriant meddygol preifat
- Cynllun beicio i'r gwaith
- 8% pensiwn (mae hynny'n 4% wedi'i gyfateb gennych chi a ninnau)
- Digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol (megis diodydd ar ddiwedd y mis, clwb ffilm a phêl-droed 5 bob ochr)

Rydym yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal, sy'n golygu y byddwn yn ystyried pob ymgeisydd sydd â chymwysterau addas ni waeth beth fo'u hunaniaeth neu fynegiant o ran rhywedd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gredoau, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, statws anabledd neu unrhyw nodwedd arall sydd wedi'i gwarchod. Rydym yn recriwtio ac yn datblygu ein pobl ar sail teilyngdod a'u hangerdd, ac rydym yn ymroddedig i greu amgylchedd cynhwysol i bob gweithiwr.

## Prif werthoedd.

## Blaengar. Parchus. Dychmygus.Ystyriol. Rhagoriaeth.